



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Yr Eifl

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Nid nepell o draeth Trefor ac o dan gysgod y mynyddoedd mae cymuned gynnes a theuluol Ysgol yr Eifl. Mae'r pennaeth a'r holl staff yn cyfrannu'n llwyddiannus at greu ethos gofalgarg a chynhwysol. Mae bron bob disgybl yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn.

Un o nodweddion pennaf yr ysgol yw'r ymdeimlad gofalgarg, parchus a chartrefol sy'n bodoli ynddi. Mae pob aelod staff yn teimlo'n rhan greiddiol o'r gymuned ac maent bob amser yn barod i wrando ar bryderon y disgyblion ac ymateb yn briodol iddynt.

Mae naws Gymreig gryf yn bodoli yn yr ysgol ac mae bron bob disgybl yn dangos balchder yn eu hysgol ynghyd â gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol. Mae'r ysgol yn achub ar gyfleoedd buddiol i annog y disgyblion i ddathlu eu Cymreictod drwy ystod o weithgareddau pwrpasol sy'n meithrin eu dealltwriaeth, eu gwybodaeth, a'u balchder yn effeithiol ac ystyrlon. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i ddangos lefel o gymhelliant a diddordeb yn eu gwaith ac yn adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i drafod eu barn yn aeddfed gyda'u cyfoedion a chyfrannu eu syniadau. Maent yn dangos parch at ei gilydd a'r staff ac yn barod i estyn cymorth i eraill. Mae medrau bron bob disgybl yn cynyddu'n gadarn. Er hyn, nid yw disgyblion bob amser yn cael cyfleoedd i gymryd rhan flaenllaw i gyfrannu at waith a bywyd ehangach yr ysgol. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob tro'n hollol sicr ynghylch sut i wella'u gwaith.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ofalgarg a phwrpasol. Caiff ei gynorthwyo'n fedrus gan gorff llywodraethol ymroddgar sydd â dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae blaenoriaethau'r ysgol, ar y cyfan, wedi deillio o adnabyddiaeth arweinwyr o'u hysgol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio strategol bob amser yn ddigon penodol na miniog.

Argymhellion

A1 Cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar waith a bywyd yr ysgol, gan gynnwys sut i wella eu gwaith eu hunain

A2 Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn arwain at flaenoriaethau miniog

A3 Datblygu cyfleoedd cyson i staff i arwain meysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.



Cyd-destun yr ysgol

Enw'r darparwr	Ysgol Yr Eifl
Awdurdod lleol	Cyngor Gwynedd
Iaith y darparwr	Cymraeg
Math o ysgol	Cynradd
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	58
Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol	53
Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol)	5
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%)	15.7%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%)	13.6%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	88.6%
Dyddiad penodi'r pennaeth	01/01/2017
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	01/12/2014
Dyddiad dechrau'r arolygiad	09/05/2023

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.